

Jason O'Brien
Prif Swyddog Gofal Cymdeithasol a Thai
Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen

Dyddiad: 09/02/2023

Annwyl Gyfarwyddwr,

Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) – Adolygiad Cenedlaethol o gynllunio gofal ar gyfer plant a phobl ifanc sy'n destun proses cyn-achos yr Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus

Mae'r llythyr hwn yn crynhoi canfyddiadau ein gweithgarwch rhwng 17 a 20 Ionawr 2023. Diben yr adolygiad oedd rhoi proses graffu allanol ar waith, rhoi sicrwydd a hyrwyddo gwelliannau o ran ansawdd arferion mewn perthynas â chynllunio gofal ar gyfer plant a phobl ifanc sy'n destun proses cyn-achos yr amlinelliad cyfraith gyhoeddus.

Crynodeb o'r canfyddiadau:

1. A oes dull systematig i sicrhau bod y trothwy ar gyfer proses cyn-achos yr Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus wedi ei fodloni?

- 1.1 Mae gweithdrefnau ar waith yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen i gefnogi ei broses gwneud penderfyniadau mewn perthynas â phroses cyn-achos yr Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus.
- 1.2 Caiff diwylliant yr awdurdod lleol, sy'n seiliedig ar gryfderau, ei ategu gan ddull sy'n canolbwyntio ar blant a theuluoedd, gyda'r nod o hybu canlyniadau cadarnhaol gan sicrhau ar yr un pryd y caiff risgiau a phryderon eu nodi a'u rheoli'n briodol.
- 1.3 Roedd yn amlwg bod diwylliant goruchwylio effeithiol ar waith gan y rheolwyr, a dywedodd yr ymarferwyr y gwnaethom siarad â nhw fod y trefniadau goruchwylio yn gryfder. Dengys cofnodion gofal cymdeithasol fod sesiynau goruchwylio ac ymgynghori yn cael eu cynnal yn rheolaidd, gyda chamau gweithredu cysylltiedig a rhesymeg ar gyfer gwneud penderfyniadau.

Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)
Swyddfa Llywodraeth Cymru
Sarn Mynach
Cyffordd Llandudno
LL31 9RZ
www.arolygiaethgofal.cymru

☎ 0300 790 0126
☎ 0872 437 7303
✉ agc@llyw.cymru

Care Inspectorate Wales (CIW)
Welsh Government Office
Sarn Mynach
Llandudno Junction
LL31 9RZ
www.careinspectorate.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

- 1.4 Gwelwyd prosesau gwneud penderfyniadau yn seiliedig ar dystiolaeth fel rhan o broses cyn-achos yr Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus yn gyson yn y cofnodion gofal cymdeithasol a welwyd, ac roeddent yn amlwg mewn trafodaethau â'r rheini sy'n goruchwyllo achosion unigol.
- 1.5 Er bod staff yr awdurdod lleol y gwnaethom siarad â nhw yn glir ynghylch eu rôl a rolau eraill o fewn y broses hon, nid oedd y staff a oedd yn cynrychioli asiantaethau eraill yn ymddangos mor hyderus, a byddai o fudd iddynt gael rhagor o wybodaeth am brosesau ehangach sy'n gysylltiedig â'r Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus a'u rolau penodol yn hyn o beth.
- 1.6 Er ein bod wedi cael gwybod bod hyfforddiant cyn-achos penodol wedi cael ei gyflwyno ar ôl cyhoeddi Adroddiad y Gweithgor Cyfraith Gyhoeddus, 'Recommendations to achieve best practice in the child protection and family justice system' ym mis Mawrth 2021, nid oedd y staff y gwnaethom siarad â nhw wedi cwblhau'r hyfforddiant hwn. Mae'n bosibl mai trosiant staff parhaus yw'r rheswm am hyn, gan gynnwys y defnydd parhaus o staff asiantaeth. Byddai staff Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen a'r rhai sy'n gweithio yn ei asiantaethau partner yn cael budd o raglen dreigl o hyfforddiant mewn perthynas â'r maes hwn, y byddai'n ddefnyddiol ei hategu â chyfres fwy cynhwysfawr o ddogfennau i gefnogi a dangos prosesau gwneud penderfyniadau.
- 1.7 Roedd y rhan fwyaf o'r asesiadau gofal a chymorth a welwyd yn canolbwyntio ar y plentyn, yn drylwyr ac yn amserol, gyda chyfiawnhad dros unrhyw oedi. Roedd y rhai gorau o blith y rhai a welwyd yn cynnal pwyslais cryf ar y plentyn a'i rwydweithiau cymdeithasol a theuluol drwyddi draw. Roedd y cynlluniau yn hawdd eu darllen a'u deall ar y cyfan, ac yn cynnwys tystiolaeth bod cydweithwyr amlasiantaethol yn bresennol yn rheolaidd mewn cyfarfodydd er mwyn cefnogi ac adolygu cynnydd tuag at gyflawni'r canlyniadau a nodwyd. Fodd bynnag, gwelsom amrywiadau o ran ansawdd asesiadau. Nid oeddent bob amser yn cynnwys dadansoddiad digon clir a oedd yn seiliedig ar ystyried datblygiadau hyd yma yn erbyn cryfderau, heriau a risgiau presennol.
- 1.8 Lle nodir risgiau i blant, mae system gynhwysfawr a chlir ar waith i olrhain ac adolygu achosion drwy lwybrau gofal, cyfarfodydd cynllunio cyfreithiol a champau cyn-achos yr Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus. Gwelsom enghreifftiau lle roedd teuluoedd wedi cael eu dargyfeirio'n briodol allan o'r Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus, gyda'r risg i sawl plentyn yn cael ei lleihau'n sylweddol heb fod angen eu hamddiffyn drwy ddulliau cyfreithiol mwyach.
- 1.9 Roedd y broses o nodi a dadansoddi risgiau yn y cofnod ysgrifenedig yn amlwg ond yn amrywiol o ran ansawdd a chysondeb ac, mewn rhai achosion, byddai'n fuddiol nodi a monitro risgiau penodol mewn ffordd fwy eglur. Er enghraifft, mewn perthynas ag un plentyn, gwelsom gyfnod sylweddol lle roedd lleoliadau'n chwalo a lle y bu'n rhaid i'r plentyn symud sawl gwaith, ac y bu'n rhaid cyflwyno achosion gofal. Er bod cryn ystyriaeth yn cael ei rhoi i lefel a natur newidiol risgiau mewn cynlluniau gofal a dogfennau cysylltiedig eraill, nid oedd unrhyw dystiolaeth o asesiadau risg penodol, integredig a chydlynol a oedd yn nodi'r ffordd orau o reoli'r risgiau hyn.
- 1.10 Mewn perthynas ag asesu grwpiau o frodyr a chwiorydd, dylid cymryd gofal i sicrhau y caiff anghenion unigol pob plentyn eu cofnodi ac yr ymdrinnir â nhw'n unigol yn hytrach nag fel rhan o asesiad cyffredinol ar gyfer y teulu.

- 1.11 Roedd yr holl gofnodion gofal cymdeithasol a adolygwyd gennym yn cynnwys cyngor cyfreithiol wedi'i ddogfennu a gafwyd mewn modd amserol drwy'r prosesau priodol. Mae tîm o bum cyfreithiwr profiadol yn cefnogi'r gwasanaethau plant, a phenodir bargyfreithwyr pan fo angen ar gyfer achosion cymhleth. Darperir cymorth y tu allan i oriau gan Dîm Dyletswydd Brys a all gael gafael ar gyngor cyfreithiol os bydd angen.
- 1.12 Mae'r niferoedd cymharol fach sy'n gysylltiedig â cham cyn-achos yr Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus yn golygu bod uwch-reolwyr yn goruchwyllo pob achos yn effeithiol. Ategir hyn drwy gynnal nifer o gyfarfodydd fel rhan o ymarfer, gan gynnwys cyfarfodydd porth cyfreithiol a gwneud penderfyniadau, ac ychwanegir ymhellach at hyn drwy gynnwys Panel Plant Agored i Niwed penodol yr awdurdod lleol, a chyfarfodydd canol cyfnod. Fforwm amlasiantaethol yw'r Panel Plant Agored i Niwed. Caiff y cyfarfodydd eu cynnal bob pythefnos a'u cadeirio gan reolwr grŵp. Rôl gyffredinol y Panel yw nodi risgiau a chytuno ar wasanaethau a chymorth i deuluoedd. Caiff gwasanaethau mewnol Torfaen eu gwerthuso a'u hadolygu o bryd i'w gilydd gan y rhai sy'n eu defnyddio, er mwyn helpu i lywio ymarfer yn y dyfodol.
- 1.13 Mae modiwl dynodedig ar wrandawiadau Llys ar gronfa ddata System Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru, y gall cyfreithwyr gael mynediad ato, yn hwyluso'r gwaith o fonitro cynnydd ac atal gwyro. Caiff gwasanaethau cyfreithiol eu cynrychioli mewn Clinigau Rheoli Galw misol hefyd, sef fforwm lle mae uwch-reolwyr yn goruchwyllo ac yn sicrhau ansawdd perfformiad.
- 1.14 Roedd y ffaith bod penderfyniadau yn cael eu gwneud gan ystyried safbwyntiau proffesiynol yn amlwg, ac roedd cyfarfodydd yn ystod y cyfnod cyn cyfarfod cyfreithiol yn cael eu defnyddio'n effeithiol fel cyfle i archwilio a gwerthuso'r cynnydd hyd yn hyn, ac i nodi unrhyw fylchau neu asesiadau, cynlluniau neu ymyriadau pellach y gallai fod eu hangen. Roedd y dull cydweithredol hwn yn helpu i sicrhau bod pob llwybr dichonadwy wedi cael ei ystyried yn weithredol er mwyn osgoi ymyriadau gan y llysoedd i blant a theuluoedd, ac roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn gwerthfawrogi hyn.
- 1.15 Mae teuluoedd sy'n destun gwaith cynllunio cyfreithiol a gwaith cyn-achos yn cael cymorth eang a chyfleoedd i wneud newidiadau effeithiol, cyn y caiff camau cyfreithiol pellach eu cymryd, hyd yn oed pan fydd y trothwy cyfreithiol ar gyfer ymyriadau wedi'i fodloni.
- 1.16 Gwelsom fod canlyniadau cadarnhaol wedi'u sicrhau drwy ddarparu gwasanaethau cymorth dwys a chyflym sy'n ymateb i ganlyniadau ac anghenion unigol. Gwelwyd bod cymorth creadigol ac ymaddasol yn grymuso teuluoedd i aros gyda'i gilydd lle bynnag y bo modd.

2. A oes trefniadau effeithiol ar waith er mwyn hysbysu rhieni a gofalwyr am drefniadau'r Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus a'r hyn y mae'r broses hon yn ei olygu?

- 2.1 Ar ôl trawsnewid y gwasanaethau plant dros y blynyddoedd diwethaf, mae ymrwymiad yr awdurdod lleol i wella ei wasanaethau ataliol ac ymyrraeth gynnar wedi arwain at ostyngiad graddol yn nifer y plant sy'n derbyn gofal. Yn debyg i awdurdodau lleol eraill, nodwyd bod gwaith sy'n gysylltiedig â'r Amlinelliad

Cyfraith Gyhoeddus yn digwydd mewn cyd-destun ehangach o gymhlethdod a galw cyffredinol cynyddol mewn perthynas â'r gwasanaethau plant.

- 2.2 Ail-ddyluniodd yr awdurdod lleol ei ddogfennaeth mewn perthynas â'r Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus yn ddiweddar, ac mae bellach yn cynnwys taflen ganllaw i rieni. Mae'r llythyr diwygiedig cyn gweithredu yn rhoi esboniad clir i'r rhieni o'r risgiau sy'n arwain at ystyried dechrau'r broses Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus, a'r hyn y gall rhieni a'u rhwydweithiau cymorth ei wneud i sicrhau newid cadarnhaol ac osgoi ymyriadau cyfreithiol pellach. O reidrwydd, mae'r iaith a ddefnyddir yn y llythyr yn parhau'n ffurfiol, ond ar y cyfan, roedd yn hawdd i'w deall.
- 2.3 Roedd rhieni yn cael gwybodaeth am y cyngor cyfreithiol sydd ar gael yn lleol fel mater o drefn. Gwelsom achosion lle roedd gweithwyr cymdeithasol wedi siarad â rhieni ar ôl anfon y llythyr, er mwyn ei esbonio'n fanylach, ac ystyried y camau nesaf posibl. Clywsom y bydd y llythyr cyn gweithredu yn aml yn cael ei gyflwyno â llaw i'r rhiant ac y rhoddir esboniad pellach ar y pryd, neu ychydig ddiwrnodau'n ddiweddarach er mwyn rhoi cyfle i'r rhiant feddwl; ond nid yw hyn yn cael ei ddogfennu ar y cofnod gofal cymdeithasol fel mater o drefn.
- 2.4 Roedd cofnodion o gyfarfodydd cyfreithiol a oedd yn cael eu cynnal â rhieni yn atgyfnerthu pwyslais ar gryfderau a chyfleoedd i newid, yn ogystal â nodi a rheoli risg. Mae'r dull hwn yn adlewyrchu gweithlu a oedd yn awyddus i sicrhau bod pawb dan sylw yn cael digon o wybodaeth am broses yr Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus, ac a oedd yn achub ar gyfleoedd i atgyfnerthu manteision a chyfleoedd gweithio mewn partneriaeth.
- 2.5 Mewn un achos, roedd yr oedi wrth anfon cofnodion yn dilyn cyfarfod cyfreithiol, pan ddewisodd rhiant beidio â chael cynrychiolydd cyfreithiol, yn anffodus gan y byddai hyn o bosibl yn rhwystro dealltwriaeth y rhiant o'r canlyniadau a'r disgwyliadau mewn sefyllfa gymhleth lle roedd nifer o asiantaethau partner yn gysylltiedig â'r broses. Byddai cael dull mwy effeithiol o sicrhau ansawdd y prosesau gweinyddol sy'n gysylltiedig â'r Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus – gan sicrhau y cymerir camau dilynol amserol mewn perthynas â phob cam o'r broses, ac y dogfennir hyn – o fudd i rieni a gofalwyr.
- 2.6 O bryd i'w gilydd, gwelsom fod newid o ran yr ymarferydd arweiniol wedi amharu ar barhad cydberthnasau â phlant a theuluoedd. Clywsom gan un rhiant a nododd fod ei brofiad wedi amrywio oherwydd ansawdd y cydberthnasau a oedd ganddo â phob un o'r gweithwyr cymdeithasol dynodedig, er iddo nodi bod y sefyllfa wedi gwella gyda'i weithiwr cymdeithasol presennol.
- 2.7 Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen wedi nodi bod y diffyg cyffredinol o ran dogfennaeth a gwybodaeth i blant a phobl ifanc am y gwasanaethau a'r cymorth y gallant gael gafael arnynt yn faes i'w wella. Roedd y broses o roi gwybodaeth, cyngor a deunydd cyfeirio mewn perthynas â phroses yr Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus yn cael ei harwain gan ymarferwyr dynodedig yn bennaf. Byddai darparu gwybodaeth a luniwyd ar y cyd drwy wefannau, taflenni a chyfeiriaduron yn grymuso plant a'u teuluoedd i ymgymryd â rôl fwy rhagweithiol wrth ddod o hyd i gymorth a gwybodaeth ystyrlon.

3. A yw'r trefniadau cynllunio gofal yn helpu i sicrhau sefydlogrwydd amserol i blant a phobl ifanc er mwyn cyflawni canlyniadau da?

- 3.1 Mae darparu amrywiaeth fedrus a chynhwysfawr o wasanaethau ataliol mewnol, megis Teuluoedd yn Gyntaf, Ffocws ar Deuluoedd ac Ymateb Cyflym yn galluogi teuluoedd yn Nhorfaen i gael y cymorth sydd ei angen arnynt, yn aml heb fod angen ymyriad statudol.
- 3.2 Roedd yn amlwg o'r cofnodion gofal cymdeithasol a welsom fod Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen yn ymrwymedig i helpu plant a phobl ifanc i aros gyda'u teuluoedd pan fo'n ddiogel iddynt wneud hynny. Gwelsom hyn yn cael ei adlewyrchu mewn diwylliant sefydledig o beidio â chychwyn achos oni bai fod llwybrau eraill wedi'u hystyried, a oedd hefyd yn amlwg yn y ddogfennaeth a welsom ac yn ein trafodaethau ag ymarferwyr arweiniol.
- 3.3 Cafodd hyn ei gadarnhau gan asiantaethau eraill, gan gynnwys adborth gan Cafcass Cymru a gadarnhaodd y bydd amrywiaeth o ymyriadau wedi cael eu hystyried cyn troi at y llys. Ystyriwyd mai dewis olaf oedd cychwyn achos ac roedd y staff a'r rheolwyr yn hyderus, cyn belled â phosibl, mai dim ond pan oedd diogelwch a llesiant y plentyn mewn perygl a bod y trothwy cyfreithiol wedi'i fodloni y byddai'r cam hwn yn cael ei gymryd.
- 3.4 Mae proses cyn-achos yr Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus yn cynnwys sawl pwynt sy'n sbarduno ystyriaeth amlasiantaeth o risg, a ph'un a yw hyn yn ymarferol o hyd yn unol â'r trefniadau presennol. Caiff camau diogelu amserol eu cymryd lle bydd risg o niwed, gan gynnwys cyfarfodydd strategaeth amlasiantaeth a chynadleddau achos cychwynol lle ceir lefelau presenoldeb da.
- 3.5 Caiff cynnydd cynlluniau plant sy'n derbyn gofal a chymorth, cynlluniau amddiffyn plant a chynlluniau plant sy'n derbyn gofal, ei adolygu'n rheolaidd, yn unol ag amserlenni penodol. Mae gan Swyddogion Adolygu Annibynnol a gomisiynwyd yn allanol a chadeiryddion cynadleddau rôl oruchwylio mewn perthynas â'r prosesau hyn, sy'n briodol annibynnol ar y prosesau cynllunio cyfreithiol a phrosesau cysylltiedig yr Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus.
- 3.6 Roedd cymorth cymesur a chreadigol yn amlwg yn y cofnodion a welsom, ac roedd y rhain yn darparu gwasanaethau a oedd yn cynnig ymatebion wedi'u teilwra er mwyn cyflawni canlyniadau a nodwyd yn benodol i blant. Gwelwyd enghreifftiau o waith partneriaeth effeithiol ochr yn ochr â'r sector iechyd mewn perthynas â babanod newydd-anedig, a hefyd mewn perthynas ag ysgolion, gan gydnabod y gall gweithwyr cymdeithasol weithio yn effeithiol ar y cyd ag eraill i greu cysylltiadau a meithrin cydberthnasau.
- 3.7 Mewn nifer o gofnodion gofal cymdeithasol a adolygwyd gennym, ni welsom unrhyw ymdrechion i ddefnyddio Cynadleddau Grŵp Teulu, er gwaethaf amgylchiadau lle gallai defnyddio genogramau ac adnoddau eraill yn y cyd-destun hwn fod wedi hwyluso'r broses o ymchwilio i'r potensial o ddatblygu rhwydweithiau cymorth ehangach, lle nad oedd y rhain yn bodoli eisoes. Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen yn cydnabod budd Cynadleddau Grŵp Teulu fel adnodd gwerthfawr a nododd ei fod yn bwriadu gwneud mwy o ddefnydd ohonynt yn gynharach yn ystod teithiau teuluoedd.
- 3.8 Gwelsom dystiolaeth fod plant yn cael eu rhoi mewn gofal o ganlyniad i benderfyniadau amserol. Gwelsom enghreifftiau hefyd o waith ardderchog yn cael ei wneud lle roedd plant a oedd wedi dod yn destun proses cyn-achos wedi cael eu symud i gam is yn ddiweddarach, oherwydd ymyriad llwyddiannus gan y rhieni. Gan ddangos yr ethos hawliau plant sy'n ysgogi ymarfer ym mhob rhan o'r

gwasanaeth, gwelsom enghraifft hefyd lle gwnaed ymdrechion niferus a pharhaus i ddarparu cymorth adferol ar gyfer cydberthynas bwysig, yng nghydestun cefnogi cyswllt parhaus.

4. A yw'r trefniadau yn hyrwyddo arferion sy'n seiliedig ar hawliau a llais y plentyn?

- 4.1 Ceir ethos hawliau plant cryf a chaiff y plant gymorth i ddeall eu hawliau a'u hawliadau. Cânt eu hannog i fanteisio ar gymorth eiriolaeth drwy asiantaethau fel y Gwasanaeth Eiriolaeth Ieuencid Cenedlaethol (NYAS), er mwyn sicrhau y caiff eu llais ei glywed pan fydd cynlluniau yn cael eu llunio ar eu cyfer.
- 4.2 Roedd yn amlwg bod plant a phobl ifanc yn chwarae rhan weithredol yn eu hasesiadau a'u cynlluniau, a gwelsom enghreifftiau o waith uniongyrchol creadigol yn cael ei wneud gyda phlant a theuluoedd i gynrychioli eu safbwyntiau. Fodd bynnag, ni welsom dystiolaeth fod dogfennau yn cael eu rhannu â phlant na'u teuluoedd fel mater o drefn. At hynny, gellir colli profiad bywyd plant unigol pan gânt eu cynrychioli fel rhan o grŵp o frodyr a chwiorydd yn unig, heb roi cyfle i glywed llais y plentyn ar wahân yn unigol.
- 4.3 Felly, mae angen gwneud rhagor o waith i sicrhau bod llais y plentyn wrth wraidd prosesau cynllunio gofal, gyda mwy o bwyslais ar sut y gall pob plentyn gyflawni ei ganlyniadau llesiant personol. Dylid atgyfnerthu llais y plentyn o fewn asesiadau a dogfennaeth arall hefyd, er mwyn sicrhau bod cynlluniau yn crynhoi'r hyn sydd o bwys i blant a phobl ifanc.
- 4.4 Ymwelir â phlant yn rheolaidd a chânt eu gweld ar eu pen eu hunain, ac maent yn cael budd o gydberthnasau sefydledig â rhywun y maent yn ei adnabod. Fodd bynnag, oherwydd y trosiant ymhlith gweithwyr cymdeithasol y cyfeiriwyd ato'n flaenorol, gall hyn fod yn weithiwr proffesiynol arall, e.e. gweithiwr Ffocws ar Deuluoedd.
- 4.5 Atgyfnerthodd trafodaethau ag ymarferwyr eu barn fod trefniadau ar gyfer meithrin cydberthnasau yn sail i ymarfer, a bod eu dealltwriaeth o brofiad bywyd a chyd-destun teuluol y plentyn yn llywio penderfyniadau proffesiynol. Er ei bod yn gadarnhaol bod dealltwriaeth a gwybodaeth mor fanwl i'w gweld wrth drafod â'r gweithwyr, nid oedd bob amser wedi'i nodi'n gyson yn y cofnod gofal cymdeithasol.
- 4.6 Roedd yn amlwg bod gwaith uniongyrchol â'r plant a'r teuluoedd yn cael ei werthfawrogi, a dywedwyd wrthym y gwneir ymdrech i sicrhau bod llwythi achosion yn hydrin er mwyn gallu hwyluso'r broses hon.
- 4.7 Roedd cyfleoedd yn cael eu colli i sicrhau bod dulliau gweithredu sy'n anelu at gofnodi a myfyrio ar lais y plentyn/person ifanc yn cael eu hadlewyrchu'n llawn yn y broses gwneud penderfyniadau. Gwelsom enghraifft o waith 'diwrnod mewn bywyd' helaeth yn cael ei gwblhau gyda phlentyn, ond ni chafodd wedyn ei ddadansoddi na'i ymgorffori yng nghofnodion asesu, adroddiadau amddiffyn plant na chynllun gofal y plentyn.
- 4.8 Yr adolygiad plant sy'n derbyn gofal yw'r brif ffordd o sicrhau bod cynlluniau perthnasol ar waith i hyrwyddo lles cyffredinol y plentyn ac i gyflawni sefydlogrwydd amserol. Caiff cynlluniau gofal ar gyfer plant sy'n derbyn gofal gan yr awdurdod lleol eu hadolygu o fewn yr amserlenni gofynnol gan swyddogion

adolygu annibynnol profiadol y mae gan lawer ohonynt gydberthynas gyson â'r plant ac y maent yn eu hadnabod yn dda. Mae'r swyddogion adolygu annibynnol yn cynnig her effeithiol i hybu llesiant a diogelwch y plentyn, ac yn ymdrechu i gasglu eu barn a chynnwys y person ifanc lle bynnag y bo modd.

- 4.9 Roedd achosion gofal yn amserol ar y cyfan o fewn yr amserlen 26 wythnos. Pan oedd achosion o oedi, roedd yr awdurdod lleol yn ceisio deall y rheswm dros hyn ac yn ceisio helpu i hwyluso gwelliannau yn y dyfodol.
- 4.10 Er gwaethaf gweithgarwch recriwtio, comisiynu a chymorth lleoli parhaus, cydnabyddir bod diffyg mewn perthynas â'r amrywiaeth a'r dewis presennol o leoliadau sydd ar gael. Fodd bynnag, yn y cofnodion gofal cymdeithasol a welwyd, gwelwch fod plant mewn lleoliadau addas a oedd yn diwallu eu hanghenion neu'n cael cymorth i barhau'n ddiogel o fewn eu rhwydwaith teuluol.
- 4.11 Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen yn ymrwymedig i ddull 'datblygu mewnol' fel rhan o'r ateb i'r her barhaus sy'n ei wynebu wrth recriwtio staff gwaith cymdeithasol. Er bod hyn wedi llwyddo i ymdrin â'r diffyg hwn yn rhannol, bydd angen mwy o gymorth cychwynnol ar y Gweithwyr Cymdeithasol Newydd Gymhwyso hyn a mentora gan gydweithwyr mwy profiadol i'w galluogi i deimlo'n hyderus wrth weithio gyda theuluoedd fel rhan o broses cyn-achos yr Amlinelliaid Cyfraith Gyhoeddus/yn y llys.
- 4.12 Disgrifiodd Cafcass Cymru a'r gwasanaethau plant gydberthnasau cydweithio effeithiol. Mae digwyddiadau hyfforddiant ar y cyd wedi cael eu cynnwys fel rhan o raglen sefydlu ar gyfer gweithwyr cymdeithasol newydd gymhwyso, gyda phwyslais ar feithrin cydberthnasau, sefydlu cysylltiadau a rhannu arferion da.
- 4.13 Clywsom fod cysylltiadau sefydledig ar lefel weithredol ac ar lefel strategol uwch, a gwnaed gwaith yn ddiweddar i geisio lleihau nifer y plant a'r bobl ifanc sy'n destun gorchmynion gofal.
- 4.14 Nodwyd hefyd y gwnaed gwaith ar y cyd mewn perthynas â Gorchmynion Goruchwyllo, yn dilyn menter gan y bwrdd cyfiawnder teuluol lleol ar yr hyn y mae cynllunio gofal da yn ei olygu. Mae gweithgor cyfraith gyhoeddus gan Lywodraeth Cymru hefyd yn ystyried y gorchmynion hyn, ac mae pennaeth gwasanaeth yr awdurdod lleol yn rhan o'r gweithgor hwnnw.

Bydd AGC yn cyhoeddi adroddiad trosolwg cenedlaethol cryno yn seiliedig ar ein canfyddiadau yn ystod Gwanwyn 2023. Hoffem ddiolch i bawb a helpodd gyda'r trefniadau ar gyfer y gweithgarwch hwn ac i'r bobl a'r staff hynny a siaradodd â ni.

Yn gywir



Lou Bushell-Bauers
Pennaeth Arolygu Awdurdodau Lleol
Arolygiaeth Gofal Cymru